# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 21-08 (p4) : 24 Medi 2008**

## Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Llwybrau Di-Draffig - Cwestiynau ar gyfer y llythyr ymgynghori

Beth yw eich barn ar yr egwyddor cyffredinol bod cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a nodir ym Mater 10.xx yn cael ei roi i'r Cynulliad?

Beth yw eich barn am amodau'r Gorchymyn arfaethedig? Er enghraifft, a ydynt wedi'u llunio'n rhy gyfyng neu'n rhy eang? Os oes angen, sut ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ail-ddrafftio a pham?

A fyddai amodau'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi datblygu llwybrau di-draffig yng Nghymru (o'r math a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 3 Gorffennaf 2008) trwy ddull Mesurau? Os na, sut fyddai angen ail-ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig a pham?

Y cynnig yw "Darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd yng Nghymru mewn cysylltiad â datblygu a chynnal a chadw rhwydweithiau priffyrdd at ddefnydd defnyddwyr ar wahân i gerbydau modur". Beth yw eich barn am hyn?

A ddylai'r termau "datblygu" a "chynnal a chadw" gael eu diffinio o fewn y mater?

A oes unrhyw rai o'r eithriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a gynhwysir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (er enghraifft mewn perthynas â Mater 5.10 (Teithio gan Ddysgwyr) hefyd yn berthnasol i'r cynnig hwn?